# Llywodraeth Cymru
# Cynllun Gwella'r Gyllideb

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hydref 2025

© Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52966, ISBN digidol 978-1-80633-490-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys

Cyflwyniad 1

Beth mae Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi'i gyflawni? 2

Cynnydd ar gyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb 3

Casgliadau 6

# Cyflwyniad

Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb 2026–27 yn cwblhau taith drawsnewid pum mlynedd o ran sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio ei chyllideb, yn ei chyflawni ac ymgysylltu ynglŷn â hi. Yn 2019 fe wnaethom ddatblygu'r Cynllun i wella proses y gyllideb gan ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ysgogi gwelliant parhaus. Ers y cynllun cyntaf, mae ein proses wedi'i llywio'n raddol gan y pum ffordd o weithio—gan ymgorffori cynaliadwyedd, atal, cydweithredu, gwneud penderfyniadau hirdymor, ac integreiddio ar bob tro.

Rydym wedi cryfhau tryloywder, wedi alinio ein prosesau cyllidol yn well gydag amcanion llesiant ehangach, ac wedi gwella ansawdd ein penderfyniadau gwario, dadansoddiad, cynllunio seilwaith, polisi trethi, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Ochr yn ochr â chydweithio parhaus â'n Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, rydym wedi mireinio offer, treialu dulliau gweithredu arloesol, a dechrau cyflwyno gwybodaeth am y gyllideb sydd nid yn unig yn fwy hygyrch ond hefyd yn cyd-fynd yn well â chanlyniadau hirdymor.

Er bod cyd-destunau ariannol cenedlaethol a byd-eang wedi cyflwyno heriau—megis y brigiau chwyddiant a erydodd ein cyllidebau—rydym serch hynny wedi cynnal ein hymrwymiad i ddiwygio. Mae'r iteriad terfynol hwn o Gynllun Gwella'r Gyllideb ar gyfer tymor y Senedd hon yn dangos yr arferion aeddfed, gwreiddiedig rydym wedi'u datblygu ac yn amlinellu sut y byddant yn parhau, gan gefnogi cyllidebu cadarn a llesiant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Cynllun hwn yn dathlu'r cynnydd a wnaed ac yn darparu map trywydd ar gyfer cynnal gwelliant parhaus, wedi'i seilio'n gadarn ar yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni rhwng 2021 a 2026.

# Beth mae Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi'i gyflawni?

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar y pum maes craidd a nodwyd yn y Cynllun cyntaf. Mae pob un bellach yn cael ei gefnogi gan arferion sefydledig ac effaith amlwg gliriach:

## 1. Penderfyniadau Gwario

- Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol wedi'i ymgorffori ar draws penderfyniadau cyllideb mawr, wedi'i wella trwy fireinio gwahanol iteriadau, ac adolygiad a gefnogir gan y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb yn 2025-26.
- Rydym wedi cwblhau cynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhywedd ac wedi adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd gan Lywodraethau eraill, gan gynnwys Canada, Gwlad yr Iâ a'r Alban, i brif ffrydio cyllidebu sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb ym mhob rhan o lywodraeth Cymru.

## 2. Dadansoddiadau Ariannol ac Economaidd, ac Asesiad o'r Effaith

- Rydym wedi disodli Adroddiad y Prif Economegydd gydag Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru, sy'n darparu dadansoddiad craff o dueddiadau cyllidol ac economaidd, gan gynnwys cynhyrchiant. Ochr yn ochr ag adroddiad blynyddol Llesiant Cymru, mae hyn yn caniatáu i'r ystyriaethau economaidd, cyllidol a llesiant gael eu cynnwys.
- Fe wnaethom gyflwyno dadansoddiad o effaith ddosbarthiadol sy'n chwarae rhan allweddol o ran deall sut mae gwariant adnoddau datganoledig yng Nghymru yn cael effaith ar draws y dosbarthiad incwm. Mae methodolegau newydd a gwell, a mwy o dryloywder yn helpu i sicrhau penderfyniadau gwybodus a theg.

## 3. Cynllunio Seilwaith

- Cyhoeddwyd ein Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIS) yn 2021. Roedd pennu amcanion WIIS yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gynllunio seilwaith mwy cyfannol ac aml-amcan, gan gynnwys ystyried manteision hanfodol eraill megis datgarboneiddio, gwytnwch a bioamrywiaeth.
- Nododd Cynlluniau Cyllid Seilwaith olynol a gyhoeddwyd fuddsoddiadau sy'n cyflawni canlyniadau strategol Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae'r llif arfaethedig o brosiectau buddsoddi yn cael ei chyhoeddi yn flynyddol ac mae fframwaith gwerthuso wedi'i ddatblygu i gefnogi cyflawni canlyniadau cadarnhaol i Gymru.

## 4. Trethi Cymru

- O dan y Cynllun Gwaith Polisi Trethi 2021–26 ac wedi'i ategu gan y Fframwaith Polisi Trethi, rydym wedi bwrw ymlaen â'r gwaith ar draws ein cyfrifoldebau trethi datganoledig a lleol yn ogystal ag ystyried datganoli trethi yn y dyfodol.
- Adolygiadau annibynnol o'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.
- Diwygio'r trethi lleol yn sylweddol i'w gwneud yn decach a chyflwyno deddfwriaeth sy'n galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i gyflwyno Ardoll Ymwelwyr a basiwyd gan y Senedd ym mis Gorffennaf 2025.
- Rydym wedi ymgorffori ystyriaethau sy'n ymwneud â threth ar draws gwaith datblygu polisi Llywodraeth Cymru.

## 5. Ymgysylltu

- Fersiwn Person Ifanc o'r Cynllun hwn, wedi'i chyd-gynhyrchu gyda gwirfoddolwyr ifanc o Plant yng Nghymru a'i lansio ar ffurf wedi'i animeiddio, gan wella dealltwriaeth ymhlith cynulleidfaoedd ifanc.
- Fe wnaethom ehangu ein gwaith gyda Discover Economics i geisio ennyn diddordeb mewn economeg ymhlith pobl ifanc sydd wedi'u tangynrychioli.
- Rydym wedi sefydlu sianeli cyfryngau cymdeithasol pwrpasol y Trysorlys @TrysorlysCymru a @WelshTreasury – i gryfhau cyfraniad dinasyddion at flaenoriaethau cyllideb.
- Mae cynadleddau treth blynyddol yn parhau i feithrin mewnbwn arbenigol a deialog draws-sector.

Mae'r cyflawniadau hyn yn tynnu sylw at sut, dros bum mlynedd, mae Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi symud o weledigaeth i ymarfer wedi'i ymgorffori. Mae pob thema bellach yn sefyll ar sylfeini cadarn – ac yn gosod y llwyfan ar gyfer cyllidebu cynaliadwy, tryloyw, wedi'i gymell gan lesiant yn 2026–27 ac i mewn i dymor nesaf y Senedd.

# Cynnydd ar gyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb

## Penderfyniadau Gwario

Dros y pum mlynedd diwethaf, gyda chefnogaeth ein rhanddeiliaid gwerthfawr, rydym wedi gwneud cynnydd parhaus ar gyflawni'r weledigaeth a nodir yn y Cynllun Gwella'r Gyllideb gwreiddiol. Rydym yn falch o'r gwaith i ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i phum ffordd o weithio sydd wrth wraidd ein penderfyniadau cyllidol.

Ar ddechrau'r tymor canolbwyntiwyd ar osod y sylfeini. Roedd egwyddorion meddwl yn hirdymor, atal, integreiddio, cydweithredu a chyfranogiad wedi'u hymgorffori'n ffurfiol mewn prosesau cyllidebol, tra bod y gallu wedi'i feithrin i asesu cynigion gwariant yng nghyd-destun amcanion llesiant.

Erbyn 2021–22, roedd yr egwyddorion hyn wedi dechrau siapio gwerthusiad y cynigion, gyda chamau wedi'u cymryd i gryfhau cynllunio tymor hwy a chysoni buddsoddiad â'r nodau llesiant. Trwy gydol 2022-23 treialwyd cyllidebu ar sail rhywedd, a chyhoeddwyd canllaw newydd “Cyflwyniad i Gyllidebu ar sail Rhywedd” i gefnogi staff. Gwnaed gwaith cynnar ar ddadansoddiad effaith croestoriadol ac anfwriadol i sicrhau bod penderfyniadau cyllidebol yn ystyried y ffyrdd amrywiol y mae polisïau yn effeithio ar wahanol grwpiau.

Roedd mwy o bwyslais ar gynhwysiant a thystiolaeth trwy 2023–24, gyda dadansoddiad croestoriadol wedi'i integreiddio'n fwy systematig i Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol. Gwnaethom gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol. Fe wnaeth yr adolygiad ganfod bod yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn offeryn gwerthfawr sy'n dwyn ynghyd sawl ystyriaeth statudol a strategol mewn un broses, gan gefnogi penderfyniad gwariant mwy gwybodus a mwy cytbwys.

Bydd y gwaith hwn nawr yn aeddfedu i fod yn arfer cyson, wedi'i ymgorffori, gyda dulliau wedi'u mireinio o asesu effeithiau anfwriadol ac integreiddio meddwl sy'n canolbwyntio ar atal mewn dewisiadau gwariant, gan weithredu argymhellion adolygiad yr Asesiad Effaith Integredig Strategol mewn cylchoedd cyllideb yn y dyfodol.

## Dadansoddiadau Ariannol ac Economaidd, ac Asesiad o'r Effaith

Ochr yn ochr â hyn, mae sylfeini dadansoddol ac economaidd proses y gyllideb wedi'u cryfhau'n raddol. Fe wnaeth Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru ddisodli Adroddiad y Prif Economegydd yn gynnar yn ystod oes y Cynllun, gydag asesiad mwy cynhwysfawr o ragolygon economaidd a chyllidol Cymru, gan ategu adroddiad Llesiant Cymru.

Ers ei gyhoeddi gyntaf ym mis Rhagfyr 2020, mae'r dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru wedi'i fireinio a'i ehangu'n raddol. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos patrymau eang, gan ddarparu cefndir hanfodol i feddwl yn strategol am flaenoriaethau gwariant ehangach. Ychwanegwyd trafnidiaeth at y dadansoddiad ym mis Rhagfyr 2021, ochr yn ochr â gwaith modelu penodol ar brydau ysgol am ddim a'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Symudodd y dadansoddiad hefyd i ddull blaengar, gan ganolbwyntio ar gynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Ychwanegwyd cwestiynau ychwanegol yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2023, gan wella'r amcangyfrifon ar gyfer defnydd aelwydydd o wasanaethau iechyd ac addysg.

Mae'r hwb i faint sampl yr Arolwg o Adnoddau Teulu yng Nghymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, wedi gwella cadernid y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y dadansoddiad hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bydd yn parhau i wneud hynny mewn iteriadau yn y dyfodol.

Er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio ar ffynonellau data newydd a newidiol a chyfleoedd ychwanegol ar gyfer cysylltu data, mae prosesau ar waith i adolygu ac addasu'r fethodoleg sy'n sail i'r dadansoddiad dosbarthiadol.

Ochr yn ochr ag Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru yn 2025–26, bydd y sylfaen dystiolaeth gryfach hon yn parhau i gefnogi mwy o dryloywder yn y broses gyllideb. Mae'r Prif Economegydd yn cyflwyno'r wybodaeth hon i'r Cabinet yn rheolaidd, yn enwedig ar ddechrau'r cylch cyllideb er mwyn sicrhau bod Gweinidogion yn gweld y dystiolaeth hon yn gynnar yn y broses gan sicrhau bod dewisiadau cyllidol wedi'u seilio ar ddadansoddiad cadarn, sydd wedi'i ddeall yn iawn.

## Cynllunio Seilwaith

Mae cynllunio seilwaith wedi bod yn faes craidd arall o gynnydd. Fe wnaeth cyhoeddi Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn 2021 osod gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer seilwaith sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan alinio buddsoddiad â datgarboneiddio, gwytnwch hinsawdd a gwella bioamrywiaeth.

Galluogodd hyn ymrwymiadau cyfalaf ar draws cyfnod y Cynllun Cyllid Seilwaith 2022/23 i 2024/25 pan wnaed buddsoddiad sylweddol, megis dros £1.3 biliwn yn seilwaith y GIG, mwy na £2 biliwn mewn tai, a dros £1 biliwn mewn addysg drwy'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

Yn adeiladu ar y sylfaen gadarn hon mae'r ail Gynllun Cyllid Seilwaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2025/26. Roedd yr ail Gynllun Cyllid Seilwaith yn gosod gwerth dros £3 biliwn o fuddsoddiad cyfalaf i gyflawni gweledigaeth Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru o gynnal ac uwchraddio ein ffyrdd, i ddatgarboneiddio mwy o gartrefi trwy ôl-osod.

Rydym wedi parhau i gyhoeddi llif prosiectau arfaethedig Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn flynyddol, sy'n rhoi tryloywder pellach ynghylch y buddsoddiadau seilwaith yr ydym ni a'n partneriaid cyflenwi yn eu cynllunio dros gyfnod o 3 blynedd. Mae hyn yn cefnogi cyflawni ein canlyniadau hirdymor, gan helpu rhanddeiliaid i nodi cyfleoedd i gydweithio a chydgysylltu cynllunio a chyflawni buddsoddiadau yng Nghymru.

Yn ystod y tymor, datblygwyd dull gwerthuso a monitro i asesu effeithiolrwydd gwariant cyfalaf a'i gyfraniad at ganlyniadau strategol, er mwyn sicrhau bod dyraniadau cyfalaf yn seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'u hysgogi gan ganlyniadau.

## Trethi Cymru

Mae trethi Cymru wedi parhau i ddatblygu dros oes y Cynllun. Mae ein trethi datganoledig ynghyd ag Ardrethi Annomestig bellach yn cyfrannu dros £4 biliwn at gyllideb Llywodraeth Cymru.

Fe wnaeth y Cynllun Gwaith Polisi Trethi 2021–26 a'r Fframwaith Polisi Trethi wedi'i ddiweddaru osod y sail ar gyfer ymagwedd gydlynol a hirdymor at drethi Cymru. Yn 2022 pasiodd y Senedd Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu). Sefydlodd hyn y saernïaeth i Weinidogion Cymru a'r Senedd wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ar ddatblygiad y bensaernïaeth hon yn y dyfodol.

Mae adolygiadau annibynnol o'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a gwblhawyd yn 2023, wedi llywio newidiadau i sicrhau bod y trethi hyn yn parhau i fod yn effeithiol ac yn deg. Wedi hynny, rydym wedi ymgynghori ar newidiadau i'r trethi datganoledig hyn ac wedi gweithredu ar yr ymatebion i'r ymarferion ymgynghori hynny.

Daeth y Ddeddf i ganiatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru gyflwyno Ardoll Ymwelwyr yn gyfraith yn 2025. Mae'r sylw bellach yn canolbwyntio ar weithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru ar y systemau i ganiatáu i awdurdodau lleol weithredu ardoll ymwelwyr os dymunir. Wrth i'n polisi trethi ddatblygu ac aeddfedu, felly hefyd ein partneriaeth ag Awdurdod Cyllid Cymru sydd bellach wedi bod ar waith ers dros 7 mlynedd yn casglu a gweinyddu'r ddwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn. Ar ddiwedd 2024-25 roedd wedi casglu mwy na £2 biliwn mewn trethi datganoledig ers ei sefydlu yn 2018. Trwy gydol y cyfnod hwn, mae datblygu polisi trethi hefyd wedi dod law yn llaw â gwell tryloywder dadansoddol, gan gynnwys offer canllaw cyflym a pharatoi rhagolygon treth, gan alluogi i'r cyhoedd a rhanddeiliaid gael gwell dealltwriaeth o effeithiau polisi.

Mewn perthynas â threthi lleol, gwnaed cynnydd sylweddol o ran sicrhau bod trethi lleol yn decach dros dymor y Senedd hon. Roedd Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 yn darparu ar gyfer ystod o ddiwygiadau ac offer newydd i greu system drethi leol y gellir ei theilwra'n fwy ymatebol i adlewyrchu anghenion Cymru.

## Ymgysylltu

Mae ymgysylltu wedi bod yn nodwedd ddiffiniol o'n prosesau gwella'r gyllideb a thrwy gydol y gwaith o gyflawni'r Cynllun. O'r cychwyn cyntaf, cymerwyd camau i ehangu cyfranogiad, gan gynnwys cyd-gynhyrchu deunyddiau addas i ieuenctid gyda Phlant yng Nghymru yn arwain at lansio'r animeiddiad a'r e-daflen ym mis Mawrth 2024.

Rydym wedi targedu ymgysylltiad â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn partneriaeth â Discover Economics ac wedi noddi gwobr newydd Cymru ar gyfer cystadleuaeth flynyddol Economegydd Ifanc y Flwyddyn y DU. Mae'r cynnydd mewn ceisiadau o Gymru – cynnydd o 188% rhwng 2023 a 2024 yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth uwch o economeg ymhlith pobl ifanc na fyddent yn draddodiadol yn gweld hyn fel gyrfa bosibl.

Yn 2024 buom yn gweithio gyda dwy Brifysgol yng Nghymru, Caerdydd a Bangor, i gynnal digwyddiadau sy'n anelu at ehangu apêl economeg a newid canfyddiadau am economeg ac economegwyr. Mynychodd 65 o ddysgwyr o 4 ysgol y digwyddiad ym Mhrifysgol Caerdydd ym mis Mehefin 2024 a mynychodd 83 o fyfyrwyr o 8 ysgol y digwyddiad ym Mhrifysgol Bangor ym mis Hydref 2024. Mae fideos hyrwyddo sy'n cofnodi'r digwyddiadau wedi'u cyhoeddi ar sianel YouTube Llywodraeth Cymru. Cafodd y ddau ddigwyddiad adborth cadarnhaol gan y prifysgolion, athrawon ysgol a'r dysgwyr.

Yn 2025, gan adeiladu ar ein perthynas â Phlant yng Nghymru, rydym wedi dechrau gweithio gyda gwirfoddolwyr ifanc i gyd-gynhyrchu asedau digidol a fydd yn datgyfrino trethi i bobl ifanc eraill ac yn creu gwell cysylltiadau rhwng pam rydyn ni'n talu trethi a sut mae'r arian a godir o drethi yn cael ei wario ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol.

## Edrych tua'r dyfodol

Wrth i ni symud i gwblhau Cynllun Gwella'r Gyllideb, mae ein ffocws ar ymgorffori a datblygu'r hyn sydd wedi profi'n effeithiol dros y pum mlynedd diwethaf a hyrwyddo uchelgais strategol ym mhob maes:

- **Penderfyniadau Gwario:** Gweithredu argymhellion adolygiad yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn llawn; cyhoeddi canfyddiadau'r cynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhywedd ac edrych ar sut y gallwn ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd yn y dyfodol.
- **Dadansoddiad Cyllidol ac Economaidd:** Parhau i wella Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru ac offer dadansoddi dosbarthiadol; integreiddio lens Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ymhellach ar draws dadansoddiad cyllidol.
- **Seilwaith:** Gwella ymagwedd Llywodraeth Cymru at gynllunio seilwaith yn barhaus; agosáu at hanner ffordd drwy'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 10 mlynedd, gwneud y mwyaf o'r cyfle i ystyried cynnydd ac esblygu ein dull cynllunio seilwaith, gan gynnwys gwella methodolegau gwerthuso; ymgymryd â datblygu'r trydydd Cynllun Cyllid Seilwaith, gan dynnu ar y canlyniadau strategol cyson a osodwyd yn Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.
- **Trethi Cymru:** Adeiladu ar ein profiad o ddatblygu a gweithredu trethi datganoledig yng Nghymru. Parhau i ystyried y cyfleoedd a'r heriau a ddaw o ddatganoli trethi yng Nghymru ymhellach. Gweithio'n agos gydag Awdurdod Cyllid Cymru i weithredu'r Ardoll Ymwelwyr yng Nghymru. Hefyd, ar y cyd ag Awdurdod Cyllid Cymru, ymgynghori ar welliannau posibl i gynnal ein trethi datganoledig gan dynnu ar y profiad hyd yma o weithredu trethi datganoledig yng Nghymru. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar sut rydym yn gwneud newidiadau deddfwriaethol i'n trethi datganoledig yn y dyfodol.
- **Ymgysylltu:** Cryfhau cydweithredu â rhanddeiliaid amrywiol; gwella tryloywder y gyllideb trwy ddulliau cyfathrebu wedi'u targedu a deunyddiau ar gyfer y cyhoedd. Rydym yn cynllunio digwyddiadau rhithwir ac wyneb yn wyneb yn 2025-26 gyda phrifysgolion Cymru i ysbrydoli economegwyr y dyfodol. Rydym yn treialu digwyddiadau rhithwir er mwyn gwneud ein sesiynau'n fwy hygyrch i ddysgwyr ym mlynyddoedd 11, 12 a 13 ledled Cymru. Bydd y digwyddiadau yn cael eu cyd-gynhyrchu gydag ysgolion.

## Adolygiad Gwariant Cymru

Un o brif ysgogwyr ein gwaith i wella'r ffordd rydyn ni'n cynllunio ac yn cyflawni ein Cyllidebau, ac yn ymgysylltu arnynt yn barhaus fydd Adolygiad Gwariant Cymru – dull strategol o gynllunio cyllidol tymor canolig a hirdymor i Gymru. Bydd y rhaglen yn sefydlu sylfaen dystiolaeth i hysbysu am y blaenoriaethau/heriau y bydd Cymru yn eu hwynebu yn y dyfodol a bydd yn darparu opsiynau tymor hwy i fynd i'r afael â'r meysydd hyn. Adolygiad Gwariant Cymru:

- mae ganddo strwythur llywodraethu cryf sy'n ymgorffori dull ymgysylltu traws-lywodraethol;
- bydd yn cymhwyso egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r egwyddorion trawsbynciol h.y. newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur, datblygu Cymraeg 2050, mynd i'r afael â thlodi a lleihau anghydraddoldebau a defnyddio datblygiadau mewn technoleg ddigidol ar gyfer yr holl opsiynau gwariant a ddatblygwyd ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hwy;
- ymgysylltu ag ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol;
- datblygu opsiynau gwariant gyda thystiolaeth lawn ar gyfer unrhyw beth sy'n cael ei gymeradwyo gan y Cabinet i mewn i dymor nesaf y Senedd a thu hwnt.

Bydd rhaglen Adolygiad Gwariant Cymru yn dod yn rhan annatod o gylch cyllidebol Llywodraeth Cymru wrth symud ymlaen.

# Casgliadau

Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb 2026–27 yn nodi penllanw taith bum mlynedd drawsnewidiol yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni cyllidebau. Trwy ymrwymiad parhaus i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ymgorffori meddwl hirdymor, atal, integreiddio, cydweithredu a chyfranogiad wrth galon ein prosesau cyllidol. Mae'r cyflawniadau a amlygir yn y cynllun hwn yn adlewyrchu system sy'n aeddfedu, un sy'n fwy tryloyw, yn gynhwysol ac yn cyd-fynd yn strategol â llesiant hirdymor Cymru.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, bydd Adolygiad Gwariant Cymru yn gonglfaen i'n gwaith blaengynllunio, gan ein galluogi i adeiladu ar y sylfaen hon gyda sylfaen dystiolaeth gadarn a rhagolwg strategol. Mae'r arferion a ddatblygwyd drwy'r Cynllun hwn bellach wedi'u hymgorffori, gan roi Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gwrdd â heriau'r dyfodol gyda hyder ac eglurder.

Nid pwynt terfyn yw'r Cynllun hwn, ond sbardun – sicrhau bod cyllidebu yng Nghymru yn parhau i esblygu, gan sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.